NEWYDDION

Rhifyn y Gwanwyn 2007

All Wales Alliance for Research and Development in Health and Social Care
Cynghrair Cymru Gyfan ar Gyfer Ymchwil a Datblygiad mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae gan AWARD rôl flaenllaw wrth ddatblygu a chefnogi ymchwil yng Nghymru. Mae Cydweithrediad Ymchwil Clinigol Cymru (CRC Cymru), a lansiwyd yn ddiweddar, yn sefydliad ymbarél sy'n cydlynu rhwydweithiau a mentrau Cymreig sy'n ymgymryd ac yn cefnogi ymchwil. AWARD, sydd bellach yn rhan o CRC Cymru, oedd rhan gyntaf yr isadeiledd ymchwil yng Nghymru i gael ei hariannu a'i gweithredu.

Cynnwys

Tudalen 1:
- Isadeiledd ymchwil Cymru - disgrifio rhwydweithiau a gwasanaethau CRC Cymru.

Tudalennau 2 a 3:
- Pa wahaniaeth y mae AWARD yn ei wneud?

Tudalen 4:
- Dyfarniad y Loteri Fawr ar gyfer cynhadledd AWARD.
- Cynhadledd AWARD.
- Sut gallwch chi gysylltu ag AWARD?

Mae AWARD yn gweithredu o fewn CRC Cymru, sy'n darparu arbenigedd methodolegol i gefnogi ymchwil o ansawdd uchel ar draws Cymru. CRC Cymru yw'r fframwaith ar gyfer ymchwil a datblygiad mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn y rhifyn 'Isadeiledd Ymchwil' hwn o gylchlythyr AWARD, rydym yn disgrifio'r rhwydweithiau a'r gwasanaethau ymchwil sy'n cydweithio ar draws CRC Cymru a sut mae'r isadeiledd hwn yn ceisio bod o fudd i iechyd a gofal cymdeithasol yma.

Mae'r Athro Helen Snooks, Cyfarwyddwr Rhanbarthol AWARD, yn gweld cyfleoedd i godi proffil ac ansawdd ymchwil yng Nghymru drwy chwarae rhan yn yr isadeiledd ymchwil ehangach.

'Buddsoddi mewn isadeiledd er mwyn gwella maint ac ansawdd yr ymchwil yng Nghymru yw'r unig ffordd i gystadlu yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae gan AWARD amrywiaeth eang o sgiliau penodol a chyffredinol ac mae'n gweithio ar draws rhwydwaith CRC Cymru i gefnogi a datblygu ymchwil.

Fel rhan o'r darlun mwy, o fewn CRC Cymru a Chydweithrediad Ymchwil Clinigol y DU, mae gan AWARD rôl allweddol'.

Beth yw gwerth ychwanegol AWARD?

Mae AWARD yn defnyddio ei arbenigedd ymchwil i godi proffil ymchwil a datblygiad mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy ddenu arian i'r wlad i ymgymryd ag ymchwil a lledaenu canfyddiadau.

Mae AWARD yn helpu i ddatblygu, cefnogi ac ymgymryd ag astudiaethau ar y cyd ar draws themâu ac ymagweddau methodolegol i adeiladu ein gallu a'n proffil ymchwil yng Nghymru.

Mae AWARD hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar brosiectau craidd a gomisiynwyd sy'n arwain at ddatblygu polisïau.

Er enghraifft, comisiynwyd AWARD i werthuso cynllun bibliotherapi Presgripsiwn Llyfrau Cymru. Sicrhawyd arian ychwanegol i ymgymryd ag adolygiad systematig o effeithiolrwydd y bibliotherapi er mwyn darparu tystiolaeth bellach i hysbysu penderfyniadau am ehangu'r cynllun. Mae cynnig i ymgymryd ag arbrawf i archwilio i effeithiolrwydd clinigol a chost llyfrau ar gyfer trin pryder ac iselder ysgafn bellach yn cael ei ddatblygu.

Prifysgol Cymru Bangor
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Abertawe

CRC CYMRU
cydweithrediad ymchwil clinigol cymru
clinical research collaboration cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yma rydym yn edrych ar dri phrosiect AWARD y mae ga
CRC Cymru i ddangos sut maent yn cyd-weithio i wella

Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu ac ymgymryd ag ymchwil

Ymgymerir ag arbrawf pwysig i werthuso'r defnydd o asid ffolig wrth drin iselder gan bartneriaeth sy'n cynnwys prifysgolion, Ymddiriedolaethau GIG, AWARD ac adrannau eraill o CRC Cymru.

Mae FolATED yn hap-brawf gyda rheolydd plasebo dwbl ddall aml-ganolfan i werthuso effeithiau asid ffolig ar driniaeth gwrth-iselder newydd a pharhaus dros 12 wythnos. Ystyr FolATED yw Ychwanegu Triniaeth Ffolad - Gwerthuso Iselder: hap-brawf gyda rheolydd ac fe'i ariennir gan Raglen Asesu Technoleg Iechyd (HTA) cystadleuol iawn GIG (Adran Iechyd).

Datblygodd gonsortiwm o aelodau AWARD ac arbenigwyr clinigol a methodolegol yr arbrawf, sy'n waith rhwng Prifysgol Cymru Bangor (PCB), Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Lerpwl ac Ymddiriedolaethau GIG gogledd-ddwyrain Cymru, gogledd-orllewin Cymru ac Abertawe. Mae'r ganolfan gydlynu yn Adran Meddyginiaeth Seicolegol gogledd Cymru yn Wrecsam. Fe'i cefnogir gan Sefydliad Hap-brofion Iechyd Gogledd Cymru (NWORTH) sy'n un o wasanaethau cefnogi CRC Cymru, ynghyd â Chanolfan Economeg a Pholisïau Iechyd Sefydliad Ymchwil Meddygol a Gofal Cymdeithasol PCB.

Dechreuodd yr arbrawf FolATED ym mis Hydref 2006, a bydd yn cymryd 33 mis i'w gwblhau. Bydd 730 o gleifion yn cael eu recriwtio o ofal cychwynnol ac eilaidd mewn tair canolfan, gogledd-ddwyrain Cymru, gogledd-orllewin Cymru ac Abertawe.

Mae Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Meddwl Cymru, un o rwydweithiau ymchwil thematig CRC Cymru, wedi mabwysiadu'r arbrawf a bydd yn recriwtio drwy gefnogaeth Rhwydwaith Proffesiynol Ymchwil CRC Cymru. Dechreuwyd recriwtio ym mis Ionawr 2007 a bydd NWORTH yn ymgymryd â hapbrofion o bell.

Cymeradwywyd yr astudiaeth gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Aml-ganolfan (MREC) Cymru, Asiantaeth Rheoli Meddyginiaeth a chynnyrch Gofal Iechyd (MHRA) a phaneli Llywodraethu Ymchwil Ymddiriedolaethau sy'n cyfranogi.

CRC CYMRU
cydweithrediad ymchwil clinigol cymru
clinical research collaboration cymru

Mae tair adran i isadeiledd CRC Cymru.

1. **Cydlyniant craidd** sy'n cynnwys rhwydwaith ymrwymiad cleifion (Cynnwys Pobl), rhwydwaith cefnogi ymchwil (Rhwydwaith Ymchwil Proffesiynol) a gweithgareddau hyfforddi.

2. Mae'r **rhwydweithiau ymchwil thematig** yn cynnwys gweithwyr academaidd a gwasanaethau'n cyd-weithio i fynd i'r afael â meysydd pwysig mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Mae yna ddeg rhwydwaith ymchwil thematig.

3. Mae'r **gwasanaethau cefnogi isadeiledd** yn darparu gwasanaethau a chefnogaeth arbenigol ar draws y themâu ymchwil. Mae AWARD yn un o'r rheiny sy'n cydweithio i ddarparu cefnogaeth a chyngor ar ymchwil.

Cyd-weithio ar draws isadeiledd CRC Cymru

Mae astudiaeth tair blynedd mewn gofal argyfwng a sicrhawyd drwy AWARD yn dangos sut y gall gwahanol adrannau o isadeiledd CRC Cymru gydweithio.

Mae'r Arbrawf SAFE yn astudiaeth broffil uchel i wella gofal mewn argyfwng i bobl hyn sy'n cwympo, a ariennir gan ffrwd ariannu TG a Rheoli Clefydau Cronig Rhaglen Ymchwil Polisïau'r Adran Iechyd. Ystyr SAFE yw Cefnogi ac Asesu Argyfyngau Cwympo. Yn yr astudiaeth, bydd parafeddygon yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio cyfrifiadur llaw gyda meddalwedd y bydd yn eu cefnogi i asesu cleifion a gwneud penderfyniadau am lwybrau gofal priodol ar gyfer pobl hyn sy'n cwympo a ffonio 999 ar eu rhan. Bydd cysylltiadau'n cael eu datblygu rhwng y gwasanaeth ambiwlans a'r gwasanaethau cwympiadau lleol a bydd y parafeddygon yn gallu cyfeirio pobl hyn yn uniongyrchol at wasanaeth cwympiadau cymunedol yn hytrach na mynd â nhw i'r ysbyty.

nddynt gysylltiadau â rhannau gwahanol o Isadeiledd cyfleoedd ar gyfer ymchwil.

Ymgymerir â'r Arbrawf SAFE ar y cyd â'r rhwydwaith TRUST (rhwydwaith Ymchwil Thematig ar gyfer Triniaeth mewn argyfwng ac annisgwyl), un o ddeg Rhwydwaith CRC Cymru. Bydd TRUST yn helpu i ddarganfod safleoedd ymchwil a rhoi cyngor ar recriwtio ymchwil.

Sicrhawyd arian drwy AWARD Canolbarth a Gorllewin Cymru ac fe'i arweinir gan Gyfarwyddwr Rhanbarthol AWARD, yr Athro Helen Snooks, arbenigwr ymchwil Gofal mewn Argyfwng ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'n waith ar y cyd rhwng Prifysgolion Abertawe, Bangor, Sheffield a Warwick a bydd yn gofyn am gyfranogiad gwasanaethau ambiwlans ar draws Cymru a Lloegr.

Pan gafwyd galwad ddiweddar am gyllid CRC Cymru ar gyfer rhwydweithiau ymchwil thematig, cymerodd yr Athro Snooks y cyfle i wneud cais am arian o Ganolfan Gydlynu CRC Cymru. Bydd y cais llwyddiannus yn ariannu Gweithiwr Ymchwil Proffesiynol ar yr Arbrawf SAFE. Ei rôl fydd cynorthwyo gyda'r gwaith o recriwtio cleifion a chefnogi cleifion sy'n rhan o greu a rhoi'r arbrawf ar waith.

Mae'r Arbrawf SAFE yn dangos manteision prosiectau ymchwil sy'n cydweithio'n agos ag adrannau perthnasol Isadeiledd CRC Cymru - yn yr achos yma, AWARD, TRUST a Rhwydwaith Proffesiynol Ymchwil, meddai'r Athro Snooks.

"Cynorthwyodd CRC Cymru i sicrhau arian ar gyfer yr arbrawf pwysig hwn a gwella ei siawns o lwyddo drwy wella agweddau o'r arbrawf".

Sut helpodd AWARD i gasglu tîm ynghyd

Galwyd ymarfer corff yn '**y buddsoddiad gorau mewn iechyd cyhoeddus**' ("**the best buy in public health**"). Mae ymarfer corff cymedrol a rheolaidd fel cerdded neu feicio am hanner awr o fudd i'ch iechyd corfforol a meddyliol, gan gynnwys pwysau gwaed is ac ymdeimlad gwell o les. Targed y Cynulliad yw cynyddu'r gyfran o oedolion yng Nghymru sy'n ymarfer corff yn rheolaidd 1% y flwyddyn ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf.

Dros y degawd diwethaf, mae cynlluniau sy'n cyfeirio pobl i'w canolfannau hamdden lleol i wella eu hiechyd yn rhywbeth cyffredin. Yng Nghymru, fel ym mannau eraill, maent wedi datblygu tameidiau, heb lawer o werthuso na rhannu arfer nodedig. Mae llunwyr polisi gwella iechyd y Cynulliad wedi cydnabod potensial rhaglenni cyfeirio ymarfer corff i gynyddu gweithgaredd ymysg pobl eisteddog sydd eisoes mewn cysylltiad â gwasanaethau a gwaith a gomisiynwyd dan gontractau AWARD.

Gofynnwyd i AWARD ymgymryd ag archwiliad o gynlluniau cyfeirio ymarfer corff presennol ar draws Cymru fel rhagflaenydd i gynllun cenedlaethol. Ymgymerwyd â'r gwaith hwn gan dîm o Ysgol Glinigol Gogledd Cymru yn Wrecsam, gyda rheolaeth AWARD gan Dr Michael Shepherd, Cyfarwyddwr de-ddwyrain AWARD yng Nghaerdydd. Arweiniodd Dr Nefyn Williams o Wrecsam, ddatblygiad arolwg o gynlluniau ac fe ariannwyd ei dîm hefyd gan y Cynulliad i ymgymryd ag adolygiad systematig o lenyddiaeth.

Pan ddechreuodd y Cynulliad y broses o dendro am werthusiad o'r cynllun cenedlaethol arfaethedig, cydlynodd Michael Shepherd o AWARD, ymrwymiad i lunio cais. Cysylltodd â'r Athro Laurence Moore a Simon Murphy, cydweithwyr yn Athrofa y Gymdeithas, Iechyd a Moeseg Caerdydd (CISHE) a arweiniodd Rhwydwaith Ymchwil i Wella Iechyd y Cyhoedd (PHIRN). Roedd yr Athro Moore yn awyddus bod CISHE yn llunio cais gwerthuso a sicrhaodd Michael fod Dr Williams a'i dîm yng ngogledd Cymru yn gysylltiedig â'r datblygiadau hyn fel partner. Llwyddodd Roedd y cais, pan gafodd ei gyflwyno, yn cynnwys y grwp CISHE/PHIRN a thîm Ysgol Glinigol gogledd Cymru, gydag arbenigedd ychwanegol o Fryste a Bangor. Llwyddodd y cais i sicrhau arian ac mae'r tîm gwerthuso wedi dechrau ar ei waith cyn dechrau ar y cynllun cenedlaethol.

Mae'r enghraifft hon yn dangos potensial yr isadeiledd i ddod ag ymchwilwyr ar draws y wlad ynghyd. Er nad oedd gan AWARD rôl arweiniol, fe gyfrannodd at sicrhau bod y tîm yn gallu defnyddio arbenigedd ymchwilwyr yn y maes hwn yng Nghymru a Lloegr.

DYFARNIAD Y LOTERI FAWR I AWARD

Mae **AWARD** yn aelod o'r tîm llwyddiannus sydd wedi ennill y cytundeb i gefnogi ymgeiswyr sy'n gwneud ceisiadau am grantiau ymchwil i'r Gronfa Loteri Fawr.

Bydd elusennau a sefydliadau o'r sector gwirfoddol yn gallu gwneud cais am grantiau am hyd at bum mlynedd o Raglen Ymchwil £25 miliwn y Loteri Fawr. Bydd y rhaglen yn dechrau yn ystod gwanwyn 2007 i ariannu prosiectau ymchwil meddygol a chymdeithasol o ansawdd uchel ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae **AWARD** yn gweithio gyda Third Sector First, sef arbenigwyr yn cydweithio ar ymchwil a pholisïau cymdeithasol, i roi cyngor a chefnogaeth i sefydliadau yng Nghymru sy'n gwneud ceisiadau am grantiau ymchwil. **www.3sf.co.uk**

Y Gronfa Loteri Fawr yw'r mwyaf o ddosbarthwr achosion da'r Loteri Genedlaethol ac mae'n ariannu iechyd, addysg, yr amgylchedd ac achosion elusennol.
www.biglotteryfund.org.uk

Rhai straeon llwyddiannus am ymchwil AWARD

Yn ddiweddar, mae Michael Shepherd wedi derbyn grant ymchwil newydd, 'Canfod penderfynyddion dangosyddion iechyd ar gyfer cancr, iechyd plant a iechyd pobl hyn'. Cafwyd swm o £90,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i cynhelir o fis Gorffennaf 2006 tan fis Mehefin 2007. Mae'r astudiaeth hon yn adolygiad systematig o'r llenyddiaeth ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd gan gyfeirio'n benodol at dri grwp poblogaeth: plant, pobl hyn a phobl a ganfuwyd bod cancr arnynt. Mae'n gydweithrediad rhwng Uned Gefnogi Tystiolaeth Ymchwil (SURE) ac AWARD de-ddwyrain Cymru/Athrofa y Gymdeithas, Iechyd a Moeseg Caerdydd (CISHE).

Siaradodd Dr Alison Porter, o dîm AWARD Canolbarth a Gorllewin Cymru yn 50fed cyfarfod Gwyddonol Blynyddol Cymdeithas Meddyginiaeth Gymdeithasol Prifysgol Leeds, ym mis Medi ar thema 'Should I stay or should I go? h.y. penderfynu a ddylid mynd i'r ysbyty ar ôl ffonio 999'.

Cwblhaodd yr Athro Gareth Williams a Samia Addis o AWARD y de-ddwyrain, gydag Emily Harrop a Dr Eva Elliott, adolygiad systematig o lenyddiaeth ar Ymagweddau Gwydnwch, Ymdopi a Saliwtogenig at Gynnal a Chynhyrchu Iechyd. Mae'r adolygiad yn un o bump a gomisiynwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) drwy ei raglen ar newid ymddygiad a iechyd cyhoeddus.

Cynhadledd AWARD

Mae **AWARD** gogledd Cymru'n cynnal cynhadledd o'r enw '**Cyd-weithio i gyflwyno gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth**' ym Mangor ddydd Gwener 30 Mawrth 2007. Nod y digwyddiad yw hyrwyddo ymchwil a datblygiad mewn iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Cymru a darparu fforwm i drafod y ffordd orau o gynhyrchu tystiolaeth rymus a fydd yn dylanwadu ar bolisïau ac arfer y dyfodol. Dylech gofrestru'n gynnar. Ewch i **www.awardconference.bangor.ac.uk** i gael mwy o wybodaeth.

SUT GALLWCH CHI GYSYLLTU AG **AWARD**

AWARD yw Cynghrair Cymru Gyfan ar gyfer Ymchwil a Datblygiad mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r rhwydwaith yn cwmpasu tair prifysgol - Bangor, Caerdydd ac Abertawe - a chaiff ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Swyddfa Ymchwil a Datblygiad Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (WORD). Nod AWARD yw hybu proffil ymchwil a datblygiad er mwyn gwneud gwahaniaeth i arfer a chyfrannu at ddatblygu polisi.

Mae gennym bob amser ddiddordeb mewn clywed gan bobl sy'n awyddus i ddatblygu prosiectau ymchwil cydweithredol newydd. Gallwch gysylltu â ni mewn tair ffordd:

Gwefan: www.awardresearch.org.uk
Ffôn: 0845 601 8545
Post: RHADBOST AWARD, CYMRU

Gobeithio bod y cylchlythyr hwn yn ddiddorol i chi. Byddem yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer eitemau yn rhifynnau'r dyfodol.Cofiwch ddangos y cylchlythyr hwn i gydweithwyr y gallai fod o ddiddordeb iddynt. Am gopïau ychwanegol neu i'ch ychwanegu at y rhestr bostio, cysylltwch â Sherry Jenkins (tel 01792 602346 or email s.a.jenkins@swansea.ac.uk). Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn bellach, gofynnwch i ni ddiwygio ein rhestr bostio a thynnu eich enw oddi arni.